Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 29.09.23 |
| **Pwnc / Subject:** | **Rhestrau arfaethedig o undebau a chyrff sy'n gymwys i enwebu Aelodau Cyswllt o'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil** |



**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 o 1 Ebrill 2024, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

**Cyflwyniad**

Mae sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn cynnig cyfle unigryw i benodi aelodau cysylltiol newydd y Bwrdd a sicrhau cynrychiolaeth eang o ran dysgwyr a'r gweithlu. Yn ymarferol, bydd hyn yn her o ran sicrhau y caiff barn a safbwyntiau'r rhai o sectorau llai – o ddysgu oedolion yn y gymuned rhan-amser, darparu prentisiaethau mewn darparwyr hyfforddiant annibynnol, a dysgwyr a staff mewn chweched dosbarth ysgolion – eu cynrychioli'n briodol ar y Bwrdd.

Byddai'n ddefnyddiol rhoi ystyriaeth bellach i sut y gellid datblygu'r defnydd o arolwg cenedlaethol blynyddol llais y dysgwr a grwpiau ffocws i ddysgwyr ar draws darpariaethau gwahanol (fel dysgwyr chweched dosbarth, oedolion sy'n dysgu yn y gymuned a phrentisiaid) i ddarganfod barnau dysgwyr ehangach a llywio'r Bwrdd.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**Cwestiwn 1** – Ydych chi'n cytuno â'r rhestrau o undebau? A oes undebau eraill yn gweithredu yn y sector addysg drydyddol yng Nghymru y gellid eu hychwanegu at y rhestrau, yn eich barn chi?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

Mae'r rhestr o'r undebau yn cynnwys undebau a enwyd sy'n gweithredu ar draws y sector addysg drydyddol a hyfforddiant.

Nid oes unrhyw undeb ar ei ben ei hun sy'n cynrychioli'r gweithlu darparwyr hyfforddiant annibynnol sy'n cyflwyno prentisiaethau. A fyddai corff fel Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, sy'n cynrychioli'r darparwyr hyfforddiant annibynnol, yn cael ei ystyried i'w gynnwys ar y rhestr hon? Efallai bydd aseswyr a hyfforddwyr yn y sector hwn yn gweld y gwahaniaeth rhwng defnyddio'r term gweithlu addysg drydyddol 'academaidd' ac 'anacademaidd' yn rhy hierarchaidd.

**Cwestiwn 2** – Ydych chi'n cytuno â'r corff cynrychioli dysgwyr a enwir? A oes cyrff eraill sy'n cynrychioli dysgwyr yn gweithredu yn y sector addysg drydyddol yng Nghymru y gellid eu hychwanegu at y rhestr i gynrychioli dysgwyr, yn eich barn chi?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

Rydym yn cytuno y dylid enwi Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM) Cymru yn un o'r cyrff sy'n cynrychioli dysgwyr ar y rhestr. Fodd bynnag, nid yw'r sefydliad hwn yn cynrychioli llais y dysgwr ar draws y system addysg drydyddol a hyfforddiant gyfan ar hyn o bryd. Er enghraifft, mae dysgwyr nad ydynt yn cael eu cynrychioli gan UCM Cymru mewn sectorau llai fel y dysgwyr rhan-amser mewn dysgu oedolion yn y gymuned ac addysg bellach, na dysgwyr chweched dosbarth mewn ysgolion uwchradd. Er bod gan UCM Cymru rywfaint o gynrychiolaeth ar gyfer prentisiaid, nid yw'n cynrychioli holl brofiadau dysgwyr yn yr holl ddarparwyr prentisiaethau ledled Cymru ar hyn o bryd.

Mae bwlch yn y sector addysg drydyddol a hyfforddiant yng Nghymru i ddatblygu cyrff eraill sy'n cynrychioli dysgwyr ar gyfer y sectorau llai hyn a grybwyllir uchod.

**Cwestiwn 3** – Sut orau y gallai'r Comisiwn glywed a chynrychioli barn a lleisiau'r dysgwyr?

Credwn y gallai'r Comisiwn glywed barn a lleisiau'r dysgwyr orau trwy ddatblygu arolwg cenedlaethol blynyddol llais y dysgwr. O bosibl, gellid datblygu ac addasu hyn o'r arolwg boddhad myfyrwyr presennol a weinyddir mewn addysg uwch, a gellid dysgu gwersi o arolwg blaenorol cenedlaethol 'Llais y Dysgwr' ar addysg bellach a hyfforddiant, a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, rydym yn cynnal arolygon dysgwyr cyn cynnal unrhyw weithgarwch arolygu, a allai hefyd ddarparu adborth buddiol i'r Comisiwn os na chaiff arolwg cenedlaethol ei ddatblygu.

Yn ogystal â chynrychiolaeth ar y Bwrdd, gallai fod yn fuddiol i'r Comisiwn drefnu grwpiau ffocws dysgwyr o dro i dro o sectorau heblaw addysg uwch ac addysg bellach lle nad yw UCM Cymru yn cynrychioli barn yr holl ddysgwyr.

**Cwestiwn 4 – Cyfle Cyfartal**

Bydd y Comisiwn yn dod yn gorff rhestredig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac yn cael ei ddal yn gyfrifol am ddileu cyfle anghyfartal, gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu, ac erledigaeth, ac yn meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau. Bydd yn cymryd yr holl gamau angenrheidiol i sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau, a safonau'n codi.

Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai cynnwys penodiadau aelodau cyswllt ar y Bwrdd sy'n cynrychioli'r gweithlu addysg a dysgwyr, yn eu cael ar gyfle cyfartal.

Beth ydych chi'n meddwl fyddai'r effeithiau ar gyfle cyfartal? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

Gallai aseswyr a hyfforddwyr yn y sector prentisiaethau fod o'r farn fod y gwahaniaeth rhwng defnyddio'r term 'academaidd' ac 'anacademaidd' i ddisgrifio'r gweithlu addysg drydyddol yn ddifrïol neu awgrymu nad yw cyflwyno hyfforddiant galwedigaethol ganddyn nhw yn gydradd â'r rhai sy'n gweithio ym maes addysg uwch neu ar gymwysterau academaidd.

Byddai'n fuddiol ceisio sicrhau bod aelodau'r bwrdd eu hunain yn amrywiol o ran eu cefndiroedd.

**Cwestiwn 5** – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai cynnwys penodiadau aelodau cyswllt ar y Bwrdd sy'n cynrychioli'r gweithlu addysg a dysgwyr yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth ydych chi'n meddwl fyddai'r effeithiau? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

Ar hyn o bryd, mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn annigonol ar draws y sectorau addysg drydyddol. Mae cynnwys UCAC yn y rhestr o undebau yn fuddiol oherwydd eu cynrychiolaeth o lawer o staff sy'n siarad Cymraeg. Byddai'n fuddiol ystyried sut mae cynrychiolaeth y dysgwyr yn cynrychioli anghenion siaradwyr Cymraeg yn ddigonol.

**Cwestiwn 6** – Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig ar gynnwys penodiadau aelodau cyswllt ar y Bwrdd sy'n cynrychioli'r gweithlu addysg drydyddol ehangach a dysgwyr er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Sylwadau ategol**

**Cwestiwn 7** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig sydd heb gael eu trafod yn benodol, defnyddiwch y blwch isod i'w nodi:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐